# Rhan Dau: Cynllun Mynediad a Ffioedd (yn ofynnol i'w gyhoeddi)

| Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Prifysgol Bangor |
| Hyd y cynllun ffioedd a mynediad | 1 Awst 2025 i 31 Gorffennaf 2026; ac<br>1 Awst 2026 i 31 Gorffennaf 2027 |

| Adran 1 - Lefelau ffioedd | |
|---|---|
| **Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu'r dull o gyfrifo lefel y ffi ym mhob lleoliad**<br>(Paragraffau 85-92 yn y canllaw) | |
| **Lefel ffioedd** | **Lleoliad y cwrs** |
| Uchafswm y ffi a reoleiddir. | Ar gyfer 2025/26 a 2026/27.<br><br>Campysau'r brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wrecsam.<br><br>• Baglor Israddedig i fyfyrwyr cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)<br>• Meistr Integredig i fyfyrwyr cartref<br>• TAR i fyfyrwyr cartref<br><br>Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am y lefelau ffioedd a reoleiddir ar gyfer 2025/26 ac unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad o uchafswm y ffi a reoleiddir y gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddwn ddiweddariadau ar ei gwefan. |
| Uchafswm y ffi a reoleiddir. | Ar gyfer 2025/26 a 2026/27.<br><br>Campysau'r brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wrecsam. |

| | |
|---|---|
| | • Blwyddyn Astudio Integredig Dramor.<br><br>Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am y lefelau ffioedd a reoleiddir ar gyfer 2025/26 ac unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad o uchafswm y ffi a reoleiddir y gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddwn ddiweddariadau ar ei gwefan. |
| Uchafswm y ffi a reoleiddir. | Ar gyfer 2025/26 a 2026/27.<br><br>Campysau'r brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wrecsam.<br><br>• Blwyddyn Integredig mewn Diwydiant fel rhan o Raglen Ryngosod<br><br>Bydd y Brifysgol yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am y lefelau ffioedd a reoleiddir ar gyfer 2025/26 ac unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad o uchafswm y ffi a reoleiddir y gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddwn ddiweddariadau ar ei gwefan. |
| Ffi a nodir mewn cytundebau partner masnachfraint | Pennir ffioedd ar gyfer rhaglenni israddedig a gynigir gan bartneriaid masnachfraint y Brifysgol mewn cytundebau â phartneriaid y fasnachfraint.<br><br>Ar gyfer cyrsiau sy'n ddarostyngedig i'r ffi a reoleiddir, mae'r rhain yn amodol ar y cyfyngiadau ar gynyddu ffioedd a reoleiddir a nodir gan Lywodraeth Cymru. Lle cynigir y rhain am lai na'r uchafswm, gellir eu hadolygu'n flynyddol. |

**Adran 1.2 - Cyfanswm lefelau ffioedd**
(Paragraffau 98-101 yn y canllaw)

Bydd y Brifysgol yn codi'r lefel ffioedd uchaf a reoleiddir ar hyn o bryd ar fyfyrwyr Israddedig Cartref Llawn Amser, Meistr Integredig a TAR am gyfnod y cynllun hwn. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r uchafswm lefel ffioedd a reoleiddir, a gellir gweld y lefelau uchaf cyfredol yma. Bydd unrhyw gynnydd yn y ffioedd ar gyfer myfyrwyr Israddedig Cartref Llawn Amser a TAR yn ystod cyfnod y cynllun hwn ac ym mlynyddoedd dilynol y cwrs yn y dyfodol yn gysylltiedig ag unrhyw gynnydd yn yr uchafswm lefel ffioedd a reoleiddir a bennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd ffioedd cyfanredol am gyfnod cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen (mae'r rhan fwyaf o raglenni israddedig y Brifysgol yn dair neu bedair blynedd o hyd), ac a yw'r rhaglen yn cynnwys

Blwyddyn Astudio Tramor Integredig neu Flwyddyn Integredig mewn Diwydiant fel rhan o Raglen Ryngosod, ac a yw Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r uchafswm lefel ffioedd a reoleiddir, fel yr amlinellir uchod.

Darperir manylion ffioedd dysgu'r Brifysgol ar wefan y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/student-administration/fees/) a thrwy e-bost i bob ymgeisydd. Caiff prosbectws y Brifysgol ei argraffu cyn dechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol, a'i ddiben yw cyfeirio darpar fyfyrwyr at wefan y Brifysgol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd. Mae'r dudalen we yn darparu adran benodol ynghylch ffioedd ar gyfer pob blwyddyn academaidd, gyda'r cynllun ffioedd a mynediad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r flwyddyn berthnasol unwaith y caiff ei gymeradwyo. Caiff unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd eu cyfleu'n uniongyrchol drwy e-bost i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt ar ôl ymgynghori ag Undeb y Myfyrwyr, a chaiff agweddau perthnasol y tudalennau gwe hefyd eu diweddaru.

Caiff ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr israddedig cartref eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Brifysgol yn diwygio'r holl Ffioedd Dysgu Israddedig Cartref yn unol ag unrhyw newid a gynghorir gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth ddatblygu'r holl gyfathrebu.

Pennir ffioedd ar gyfer rhaglenni israddedig a gynigir gan bartneriaid masnachfraint y Brifysgol mewn cytundebau â phartneriaid y fasnachfraint. Lle cynigir y rhain am lai na'r uchafswm, gellir eu hadolygu'n flynyddol, a allai arwain at gynnydd.

**Adran 2 - Partneriaeth Myfyrwyr**
(Paragraffau 102-105 yn y canllaw)

Mae gan Brifysgol Bangor hanes hir o gydweithio â'r myfyrwyr fel corff a chydag Undeb y Myfyrwyr. Mae partneriaeth yn ddull gweithredu sy'n datblygu'n barhaus ac mae'n seiliedig ar barch rhwng y naill ochr a'r llall, cydweithio, ac ymdeimlad o undod. Mae'r brifysgol yn frwd dros annog myfyrwyr i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu addysgu, a dylanwadu ar newid strategol ar draws Prifysgol Bangor. Trwy gydweithio, mae'n ymgynghori â myfyrwyr ac yn gwrando arnynt wrth greu a chyflwyno ei gwaith, gan sicrhau y gallant arwain dyfodol y brifysgol mewn modd ystyrlon. Mae hyn yn amlwg yn y strategaethau sefydliadol sydd i gyd yn canolbwyntio ar y myfyrwyr trwy gydol eu datblygiad. Yn natblygiad ei strategaethau sefydliadol diweddaraf, mae'r brifysgol wedi ymrwymo i roi cyfleoedd pellach i fyfyrwyr gydweithio â staff, yn lleol yn eu hysgolion ac fel rhan o gymuned ehangach y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r strategaethau hyn yn adeiladu ar y dull a ddatblygwyd trwy gydweithio ac mae'n enghraifft arall o ymrwymiad i'r ethos o gydweithio â myfyrwyr.

Mae cynrychiolaeth ddemocrataidd trwy Undeb Myfyrwyr annibynnol yn rhan greiddiol o'r bartneriaeth. Mae'n sicrhau mai'r myfyrwyr, fel corff cyfun, sy'n penderfynu beth sy'n bwysig, pam y dylid gwneud newidiadau a sut, ac yn sicrhau bod cydweithio yn gallu gwireddu'r newidiadau hyn. Mae gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr yn hollbwysig i ddatblygu dull cynhwysol o wneud penderfyniadau yn y brifysgol. Mae Undeb y Myfyrwyr yn trafod yn rheolaidd ag uwch aelodau'r Brifysgol, yn bennaf y Cofrestrydd Academaidd a'r Dirprwy Is-ganghellor dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yn y lle cyntaf, unrhyw faterion yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn llunio Adroddiad Profiad Myfyrwyr Blynyddol, sef cyfuniad o nifer o Adroddiadau Dirnadaeth Myfyrwyr sy'n cael eu cynhyrchu a'u rhannu â'r brifysgol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu themâu allweddol a'r materion mwyaf amserol a pherthnasol sy'n effeithio ar fyfyrwyr Bangor. Mae'r adroddiad (ac unrhyw argymhellion ynddo) yn cyfrannu syniadau ynghylch sut y gellir parhau i gydweithio er mwyn gwella profiad myfyrwyr, ac yn cynorthwyo i sicrhau y cynhelir perthynas waith agos ac effeithiol.

Mae gan Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr gynrychiolaeth ar gorff llywodraethu'r brifysgol (Y Cyngor), maent yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion ac uwch staff eraill, ac fe'u gwahoddir i holl grwpiau strategaeth a grwpiau tasg a phwyllgorau'r Cyngor. Mae'r brifysgol hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd ar y cyd rhwng Pwyllgor Gweithredu'r brifysgol a'r Swyddogion Sabothol, sy'n digwydd unwaith bob semester.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cydnabod cryfder y bartneriaeth ac yn ymrwymo i barhau i gydweithio â'r brifysgol i sicrhau bod cynrychiolaeth myfyrwyr yn rhan flaenllaw o’r agenda. Mae Undeb y Myfyrwyr yn parhau i sicrhau bod cynrychiolwyr cwrs yn cael cefnogaeth dda, bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaeth, ynghyd â gweithio gyda’r brifysgol i sicrhau eu bod yn weledol iawn o gwmpas y campws. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn parhau i sicrhau bod adnoddau ar gael i weithredu ar syniadau myfyrwyr, fel bod cynlluniau gwaith newydd ac arloesol yn cael eu datblygu'n gyson. Yn yr un modd, mae’r brifysgol yn sicrhau bod gan bob ysgol aelod penodol o staff a fydd yn gweithio gyda chynrychiolwyr cwrs yn yr ysgol ac yn eu cefnogi.

Mae Prifysgol Bangor yn dilyn canllawiau arferion da HEFCW mewn perthynas â chyllido undebau myfyrwyr democrataidd ac effeithiol a chynrychioli myfyrwyr. Cynhyrchir siarter myfyrwyr yn flynyddol sy'n amlinellu’r disgwyliadau o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau cydfuddiannol y brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a’r myfyrwyr. Mae hyn wedi ei ymgorffori yn rhan o’r sgyrsiau wrth groesawu myfyrwyr ac mae’n cael ei harddangos ym mhob un o’r neuaddau preswyl. Mae Undeb y Myfyrwyr yn defnyddio'r disgwyliadau a amlinellir yn y Siarter Myfyrwyr wrth gyfathrebu â myfyrwyr a'r brifysgol, ac wrth ddatblygu ymgyrchoedd a mentrau newydd. Mae'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, sy'n ymgorffori aelodaeth o Undeb y Myfyrwyr, yn derbyn Siarter y Myfyrwyr yn flynyddol. Yn ogystal, caiff cytundeb perthynas y brifysgol ag Undeb y Myfyrwyr ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan yr Undeb, y Pwyllgor Gweithredu a’r Cyngor.

Ym mhob ysgol academaidd, mae Cyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yn gyfrifol am y canlynol: sicrhau bod y system cynrychiolwyr cwrs yn cael ei hyrwyddo'n dda ac yn digwydd yn unol â disgwyliadau Undeb y Myfyrwyr; bod myfyrwyr yn ymwybodol sut y gweithredir ar eu hadborth; a bod yr ysgol yn cymryd camau pendant i sicrhau bod gan fyfyrwyr ran mewn penderfyniadau ynghylch eu haddysg eu hunain.

Enghraifft ymarferol o gydweithio mewn ysgolion academaidd yw’r digwyddiadau lle cynllunnir y gweithredu a’r gwelliannau yn ymateb i’r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, a gynhelir ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr. Mae'r digwyddiadau hyn yn dod â staff a myfyrwyr mewn ysgol academaidd ynghyd i drafod a chytuno ar welliannau addysgu yng ngoleuni canlyniadau’r arolwg a data allweddol arall. Wrth ddylunio ei gwasanaethau cymorth, mae Bangor wedi bod yn arwain y sector wrth ddatblygu Strategaeth Iechyd Meddwl dan Arweiniad Myfyrwyr. Gan weithio gyda'n Hundeb Myfyrwyr i sicrhau amrywiaeth o ran cynrychiolaeth wrth ymgynghori â myfyrwyr, mae'r strategaeth hon a arweinir gan fyfyrwyr wedi dylanwadu ar gynllun a darpariaeth gwasanaethau cymorth canolog a'n ffordd o ymdrin â lles myfyrwyr fel sefydliad cyfan. Mae’r arfer hon yn parhau gyda phroses adolygu barhaus ein

Strategaeth Iechyd Meddwl Dan Arweiniad Myfyrwyr yn 2023/4 sydd eto’n seiliedig ar ymgynghori helaeth â’n myfyrwyr ac sydd wedi’i chydgynhyrchu ag Undeb y Myfyrwyr.

Ar ben hynny, mae’r brifysgol yn parhau i ddatblygu ei harferion wrth ennyn diddordeb myfyrwyr ar lefel ôl-radd, gan fuddsoddi mewn cyfleoedd pellach i fyfyrwyr ôl-radd hyfforddedig ac ymchwil gydweithio â staff academaidd i wella eu cwricwlwm a phrofiad myfyrwyr. Enghraifft o hyn yw’r digwyddiadau blynyddol i gynllunio gweithredu a ddatblygwyd mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr, sy’n sicrhau bod adborth o’r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a’r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil yn cael ei ystyried ar lefel ysgol. Mae myfyrwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â llunio cynlluniau gweithredu'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn parhau i gael ei chynrychioli trwy ei swyddogion mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu’r cynllun ffioedd a mynediad ac yn parhau i gymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar sut y dylid gwario incwm ffioedd. Yn hyn o beth mae’r Undeb wedi cyfrannu syniadau ac awgrymiadau mewn pwyllgorau ac mewn trafodaethau â staff y brifysgol. Mae'r mesurau yng nghynllun ffioedd a mynediad y brifysgol yn gyson â themâu allweddol a nodwyd trwy'r ymrwymiadau hyn ac maent hefyd yn gyson â chanlyniad arolygon ac adroddiadau myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cadarnhau bod y cynllun ffioedd a mynediad yn adlewyrchu'r trafodaethau a gawsant gyda'r brifysgol, a'i fod yn helpu i roi sylw i'r argymhellion y maent wedi eu gwneud, gan gynnwys, er enghraifft, rhoi dull sefydliadol ar waith i ddatblygu adborth myfyrwyr, sicrhau bod cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ar bob pwyllgor ac ym mhob adran (Amcanion 3, 4 a 5), a sicrhau bod arweinwyr myfyrwyr yn meddu ar yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau fel cynrychiolwyr, tra bônt yn y brifysgol ac wedi hynny (Amcan 7).

Mae corff llywodraethu'r brifysgol, y Cyngor, yn dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Cyllid, sy'n adolygu ac yn cymeradwyo pob cynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys gwerthuso cynnydd yn erbyn cynlluniau blaenorol. Mae hefyd yn llunio crynodeb o broses fonitro a gwerthuso flynyddol Grŵp Monitro’r Cynllun Ffioedd a Mynediad. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal â bod yn llywodraethwr ar Gyngor y brifysgol, yn aelod o Grŵp Monitro’r Cynllun Ffioedd a Mynediad a'r Pwyllgor Cyllid, ac felly mae'n ymwneud yn uniongyrchol â llofnodi'r cynllun. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr (a/neu'r llywydd) hefyd yn cymryd rhan trwy strwythurau llywodraethu'r brifysgol, ac mae'r blaenoriaethau a nodwyd trwy'r ymrwymiadau hyn yn llywio’r blaenoriaethau a’r penderfyniadau a wneir o ran datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**Adran 3 - Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**
(Paragraffau 106-116 yn y canllaw)

Mae'n hanfodol bod ein gweithgareddau ehangu mynediad yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y credwn y medrwn effeithio fwyaf arnynt. O'r herwydd, bydd ein gweithgareddau ehangu mynediad yn canolbwyntio'n bennaf ar recriwtio a dal gafael ar y grwpiau hynny a nodwyd gan HEFCW fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn unol â'r ymrwymiadau sy'n ofynnol i'r brifysgol trwy ei Chynllun Ffioedd a Mynediad:

- Myfyrwyr o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- Myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel mewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig
- Myfyrwyr rhan amser
- Myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Myfyrwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig
- Myfyrwyr ag anableddau
- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal neu sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Mae'r brifysgol yn cydnabod yr angen i gefnogi recriwtio a dal gafael ar fyfyrwyr eraill a all fod dan anfantais neu heb gynrychiolaeth ddigonol, a bydd ein polisïau, prosesau, cynlluniau gweithredu, a chyngor/canllawiau perthnasol yn ymwybodol o anghenion penodol y myfyrwyr hyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig; dynion ifanc o gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac ardaloedd o gyfranogiad isaf; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; milwyr a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd; myfyrwyr wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni/gofalwyr; myfyrwyr o gymunedau sipsiwn, teithwyr, Roma, shewmyn a phobl cychod; myfyrwyr digartref.

<u>Ymestyn yn Ehangach</u>

Trwy gyfraniad y sefydliad i'r rhaglen ranbarthol Ymestyn yn Ehangach, cefnogir y grwpiau canlynol hefyd:

- Pobl ifanc hyd at 16 oed yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Gofalwyr a dysgwyr â phrofiad o ofal ym mhob grŵp oedran yn rhanbarth y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach, yn annibynnol ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Pobl ifanc ôl-16 mewn addysg hyd at lefel 4, yn nau gwintel isaf y mynegai amddifadedd.
- Oedolion heb gymwysterau lefel 4 yn nau gwintel isaf y mynegai amddifadedd.
- Pobl ag anableddau
- Pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a
    - Dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymreig.

| **Adran 4 - Amcanion sy'n berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU**<br>(Paragraffau 117-135 yn y canllaw) | |
|---|---|
| **Adran 4.1 - Cyfle Cyfartal** | |
| Amcan 1 | Denu rhagor o geisiadau i addysg uwch gan fyfyrwyr ehangu mynediad. |
| Amcan 2 | Cynyddu cyfranogiad siaradwyr Cymraeg mewn addysg uwch. |
| Amcan 3 | Darparu cefnogaeth academaidd a lles i sicrhau ein bod yn dal gafael ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a bod eu canlyniadau yn debyg i boblogaeth ehangach y myfyrwyr. |
| Amcan 4 | Sicrhau amgylchedd ac addysg gynhwysol. |
| **Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch** | |
| Amcan 1 | Sicrhau bod profiad rhagorol a chyson yn cael ei ddarparu i fyfyrwyr. |
| Amcan 2 | Sicrhau datblygiad rhagor o bartneriaethau cymunedol a dinesig gan ystyried llesiant cenedlaethau'r dyfodol. |
| Amcan 3 | Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion. |

## Awdurdodi'r cais cynllun mynediad a ffioedd i HEFCW (yn ofynnol er mwyn ei gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun mynediad a ffioedd, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen;

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

iii. yn cadarnhau bod ymgynghoriad priodol wedi ei gynnal â'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a chyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ran y sefydliad;

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun mynediad a ffioedd hwn yn gywir a chyfredol ar adeg ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;

v. yn cadarnhau: **[dylid dileu un neu fwy o ddatganiadau, fel bo'n briodol]**
   a. ei bod yn dderbyniol i HEFCW ddefnyddio gwybodaeth/data am gyllid neu ansawdd neu unrhyw wybodaeth/ddata arall a ddelir ganddo am sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd, p'un a ddarparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio;
   ~~b. nad yw hi'n dderbyniol i HEFCW ddefnyddio gwybodaeth/data am gyllid neu ansawdd neu unrhyw wybodaeth/ddata arall a ddelir ganddo am sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd i ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015; ac~~
   ~~c. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, a mwy diweddar yn sail ar gyfer asesiad HEFCW;~~

vi. yn deall bod HEFCW yn cadw'r hawl i gynnal ymweliad â'r sefydliad er mwyn cael dealltwriaeth well o gymhwysedd yn gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd mewn cynlluniau mynediad a ffioedd ac/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran;

vii. yn deall bod rhaid iddo ddarparu i HEFCW a/neu asiant HEFCW wybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran;

viii. yn deall y caiff HEFCW gynnal adolygiad yn gysylltiedig ag ansawdd addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, neu drefnu i asiant wneud hynny, a bod rhaid i'w gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a gaiff gan HEFCW neu gan y corff a benodir gan HEFCW at y diben hwn;

ix. yn cadarnhau y rhoddwyd ystyriaeth i'r <u>holl</u> addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, waeth beth yw lefel neu leoliad y ddarpariaeth, yn y cais cynllun mynediad a ffioedd hwn;

x. yn cadarnhau bod risg isel i'r sefydliad fethu’n ariannol dros y tymor canolig i'r tymor hir;

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig, ac nad yw'r archwilydd cofrestredig o'r un cwmni, nac/neu yr un un â'r unigolyn a wnaeth baratoi'r cyfrifon;

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch;

xiii. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol a wneir i fyfyrwyr yn y cynllun mynediad a ffioedd, fel y cafodd ei gymeradwyo gan HEFCW;

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd israddedig llawn-amser i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac addysg uwch a pheidio â lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal y bwriedir iddo gefnogi rhai heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch <u>yn unig;</u>

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi drwy gyfrannu at y Rhaglen Ymestyn yn Ehangach sy’n cyd-fynd â’i Strategaeth a’r Cynllun Gweithredu Ymestyn yn Ehangach y cytunwyd arnynt;

xvi. yn cadarnhau y bydd yn rhoi’r un faint o gefnogaeth i fyfyrwyr;

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau bod copi o'r cynllun mynediad a ffioedd ar gael i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat;

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn rhoi cyfarwyddiadau clir i fyfyrwyr ynglŷn â sut i ddilyn prosesau cwyno HEFCW;

xix. cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy’n astudio cyrsiau ôl-radd;

xx. yn ystyried sut y gall buddsoddiad gefnogi myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig Covid-19 lle nad ydynt eisoes wedi’u nodi fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;

xxi. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig o ran amddiffyn dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo lles ei myfyrwyr a'i staff.

| Cyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd i HEFCW[1] | |
|---|---|
| Date of Governing Body approval: | 5th July 2024 |
| Governing Body authorised signature: | Eric D Hepburn, Chair of Finance Committee. |
| Date: | 5th July 2024 |
| **Cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd terfynol cyn gynted ag y bydd HEFCW wedi cadarnhau nad yw am godi unrhyw faterion pellach (lle bo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu: | 10 Ebrill 2025 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: | Eric Hepburn, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.<br>Gweler y dyfyniad o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, isod. |
| Dyddiad: | 8 Mai 2025 |
| **Cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd terfynol cyn gynted ag y bydd HEFCW wedi cadarnhau nad yw am godi unrhyw faterion pellach (lle bo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu: | 9 Chwefror 2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: | Eric Hepburn, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.<br>Gweler y dyfyniad o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, isod. |
| Dyddiad: | 11 Mawrth 2026 |

[1] Ni chaiff cynlluniau mynediad a ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r sefydliad fod yn fersiynau sy’n wahanol i’r rhai a gymeradwywyd gan HEFCW.

**Prifysgol Bangor**

**DETHOLIAD O GOFNODION Y PWYLLGOR CYLLID**

**Dyddiad:** 9 Chwefror 2026

**2526-101 Amrywiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad 2025/26 a 2026/27**

Cadarnhawyd bod Mr Hepburn wedi nodi ei fod yn cytuno â'r amrywiad i Adran 1.2 (Lefelau Ffioedd Cyfanredol) o'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, o dan ei awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor.